

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 163A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae wedi dechrau gwneud newidiadau diwylliannol. Mae hynny'n helpu i sbarduno gwelliant, ond mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol a gallai gwerthusiad y Cyngor o ganlyniadau a'r effaith y maent yn ei chael ar ddinasyddion fod yn fwy eglur 8

Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ar draws ystod o'i wasanaethau pwysig, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol 8

Gallai diwygiadau diweddar i drefniadau llywodraethu a rheoli gefnogi gwelliant, ond nid yw'r Cyngor yn hunanwerthuso'n glir ac yn gyson ei berfformiad o ran cyflawni ei amcanion gwella a'r effaith y mae ei gamau gweithredu ar gyfer gwella'n ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth 14

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi gwelliant yn gadarn mewn sawl maes; fodd bynnag, gan iddo fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrylwyr i'r materion sy'n ymwneud â diogelu a godwyd gan waith adolygu allanol, methodd yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus 16

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 22

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro 23

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 25

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae wedi dechrau gwneud newidiadau diwylliannol. Mae hynny'n helpu i sbarduno gwelliant, ond mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol a gallai gwerthusiad y Cyngor o ganlyniadau a'r effaith y maent yn ei chael ar ddinasyddion fod yn fwy eglur.

3 Nodwyd y canlynol gennym: Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ar draws ystod o'i wasanaethau pwysig, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol:

- mae gwasanaethau tai wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, ac maent yn disgwyl y byddant yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safon erbyn mis Mawrth 2013;
- at ei gilydd mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cefnogaeth dda i'w ddinasyddion sy'n agored i niwed;
- mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol, ac mae ei gapasiti i wella hefyd yn anfoddhaol;
- mae dull y Cyngor o ymdrin â'r amgylchedd yn gwneud cynnydd da;
- mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau gwastraff;
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd;
- mae'r Cyngor yn datblygu ac yn cefnogi cymunedau, ac mae'n hybu diogelwch trwy raglen weithredol o brosiectau a mentrau;
- mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella mynediad i'r sir ac o fewn y sir.

4 Yn ogystal, nodwyd y canlynol gennym: Gallai diwygiadau diweddar i drefniadau llywodraethu a rheoli gefnogi gwelliant, ond nid yw'r Cyngor yn hunanwerthuso'n glir ac yn gyson ei berfformiad o ran cyflawni ei amcanion gwella a'r effaith y mae ei gamau gweithredu ar gyfer gwella'n ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad canlynol: Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi gwelliant yn gadarn mewn sawl maes; fodd bynnag, gan iddo fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrylwyr i'r materion sy'n ymwneud â diogelu a godwyd gan waith adolygu allanol, methodd yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus:

- mae'r Cyngor erbyn hyn, yn bennaf oherwydd gwaith adolygu allanol, yn fwy ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â diogelu ac mae wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol clir, er bod angen o hyd cryfhau'r cysylltiadau ag amcanion strategol ac amcanion gwella;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant;
- mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau bod y *Cynllun Iaith Gymraeg* yn cael ei weithredu.

# Argymhellion

6 Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddais adroddiad fy arolygiad arbennig o'r modd yr oedd y Cyngor yn gweithredu trefniadau diogelu, a deuthum i'r casgliad bod y Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus. Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i wneud y gwelliant sy'n ofynnol, argymhellais y canlynol:

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai Gweinidogion Cymru gynorthwyo'r Cyngor drwy arfer eu pwerau o dan Adran 28 o'r Mesur gan roi pwyslais arbennig ar gefnogi trefniadau llywodraethu, craffu a sicrhau |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae wedi dechrau gwneud newidiadau diwylliannol. Mae hynny'n helpu i sbarduno gwelliant, ond mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol a gallai gwerthusiad y Cyngor o ganlyniadau a'r effaith y maent yn ei chael ar ddinasyddion fod yn fwy eglur

## Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ar draws ystod o'i wasanaethau pwysig, mae gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol

### Mae gwasanaethau tai yn gwneud cynnydd ardderchog o ran bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, ac maent yn disgwyl y byddant yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safon erbyn mis Mawrth 2013

11 Yn wreiddiol, nododd Llywodraeth Cymru y dylai landlordiaid tai cymdeithasol (gan gynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (y Safon) erbyn diwedd 2012. Yn dilyn hynny, newidiodd Llywodraeth Cymru y terfyn amser i 31 Mawrth 2013, gan fod landlordiaid yn tueddu i gynllunio a chyflawni eu rhaglenni o waith gwella ar sail blwyddyn ariannol.

12 Mae'n amlwg bod gwasanaethau tai Sir Benfro yn gwneud cynnydd ardderchog o safbwynt gwella stoc y Cyngor o dai, ac mae'r Cyngor yn nodi ei fod yn disgwyl y bydd ymysg yr ychydig awdurdodau yng Nghymru a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safon erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Mae adolygiad y Cyngor o'r cynllun gwella'n nodi cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni'r nodau a amlinellwyd yn ei gynllun gwella ar gyfer 2011-12. Mae ein gwaith yn dangos bod adroddiad y Cyngor, sy'n nodi gwelliant parhaus yng Ngwasanaeth Tai'r Cyngor, yn deg ac yn gywir.

13 Mae gwasanaethau tai'n defnyddio eu cynllun gwella gwasanaeth fel dogfen weithredol, ac felly mae'r ddogfen yn sail i waith rheoli perfformiad gweithredol hefyd, sy'n arfer da. Ymddengys fod pennu rhai o'r cyfrifoldebau ym maes gofal cymdeithasol oedolion i Bennaeth y Gwasanaeth Tai yn drefniant ymarferol a synhwyrol, sy'n dangos bod yr uwch-dîm rheoli'n gweithredu mewn modd hyblyg a chydweithredol.

14 Arferai'r Cyngor berfformio'n wael o safbwynt yr amser a gymerai i weinyddu a chyflawni gwaith sy'n defnyddio'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ond gwnaed gwelliannau sylweddol trwy symleiddio prosesau a datblygu mwy o gydgysylltu rhwng adrannau, sy'n arwydd arall o arfer da.

### At ei gilydd mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cefnogaeth dda i'w ddinasyddion sy'n agored i niwed

15 Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod gwasanaethau i oedolion yn cael eu llywodraethu a'u harwain yn effeithiol. Dechreuodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ar ei swydd ym mis Medi 2012 yn dilyn ymadawiad y cyfarwyddwr, a fu yn y swydd am amser maith, yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r trefniadau diwygiedig ar gyfer y gyfarwyddiaeth wedi gwella ymhellach y trefniadau partneriaeth â maes iechyd, ac mae hynny wedi arwain at rai canlyniadau cadarnhaol mewn rhai meysydd, gan gynnwys llai o alw ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys a llai o oedi wrth i bobl y mae arnynt angen gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth i oedolion gael eu trosglwyddo o'r ysbyty.

Mae'r bartneriaeth â maes iechyd yn parhau'n faes hollbwysig, a bydd yn hanfodol i'r Bwrdd Partneriaeth ddarparu cyfeiriad strategol clir a sicrhau bod y cynnydd da a wneir ar hyn o bryd o ran trefniadau cydweithio'n parhau.

16 Ym mis Hydref 2012 cyhoeddodd AGGCC ei hadolygiad a'i gwerthusiad o berfformiad yn 2011-12. Mae'n disgrifio newidiadau cadarnhaol a gwelliant. Tynnwyd y testun canlynol allan o grynodeb yr adroddiad llawn.

17 'Mae'r gwasanaethau i oedolion wedi elwa ar y ffaith bod y Cyngor yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl yn y gymuned. Datblygwyd rhwydweithiau lleol sydd wedi helpu pobl i aros yn annibynnol a'u galluogi i fanteisio ar wasanaethau seiliedig yn y gymuned.

18 Mae'r gwasanaethau i blant wedi cynnal perfformiad cyson ac er bod y gweithlu'n sefydlog, mae'r Cyngor yn dal i ddibynnu ar nifer sylweddol o staff heb gymwysterau. Cynhaliwyd adolygiad i fynd i'r afael â hyn, a'r her o fodloni patrymau galw anghyson ar draws y sir. Gweithredwyd argymhellion yr adolygiad yn 2011-12 ac er bod y gwasanaeth mewn cyfnod o drawsnewid, mae perfformiad y gwasanaethau i blant wedi gwella mewn nifer o feysydd. Mae gan bennaeth y gwasanaethau i blant weledigaeth gref ar gyfer y gwasanaeth, sy'n ategu cysondeb ymarfer a swyddogaeth staff cymwysedig.'

19 Mae adroddiad y cyfarwyddwr sydd wedi ymadael yn cynnwys disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor, ac mae'n adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC.

20 Nododd AGGCC yr arfer da canlynol:

- Mae *Canllaw ar gyfer Gwell Gofal a Chefnogaeth* y Cyngor wedi profi i fod yn ffynhonnell dda ar gyfer rhoi cyngor i bobl a gweithwyr proffesiynol a'u cyfeirio at gymorth defnyddiol. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i bobl mewn ysbyty sydd angen cyngor a chymorth, a sicrheir ei fod ar gael yn eang mewn ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu yn y sir, ac i gleifion Sir Benfro sy'n mynd i ysbytai yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau ymgynghori da gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r rhai fydd eu hangen yn y dyfodol o bosibl. Mae wedi gwneud defnydd da o ddigwyddiadau cyhoeddus, arolygon a holiaduron. Bydd y lefel hon o ymgysylltu yn parhau eleni ac yn cael ei hymestyn.
- Mae *Cynllun Cymydog Da* y Cyngor wedi bod yn fenter lwyddiannus sydd wedi cael derbyniad da a bellach mae naw o'r rhain yn weithredol yn y sir, gyda gwaith pellach wedi dechrau mewn 10 cymuned arall. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyngor lleol i bobl a'u cyfeirio at gymorth. Mae'n annog cefnogaeth a chyfranogiad cymunedol.

21 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol:

- gallai pryderon parhaus am yr ymateb corfforaethol i faterion diogelu plant dynnu sylw'r gwasanaethau cymdeithasol i blant ar adeg pan mae angen iddynt allu ymsefydlu'r newidiadau i'r gwasanaethau;

- sefydlu'r gallu i reoli fframwaith dibynadwy ac effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad yn y gwasanaethau i blant.

## Mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol, ac mae ei gapasiti i wella hefyd yn anfoddhaol

22 Ym mis Hydref 2012 cyhoeddodd Estyn ei adroddiad yn dilyn ail arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc, ac mae'r adroddiad hwnnw ar gael ar ei wefan ar www.estyn.gov.uk. Mae'r crynodeb canlynol wedi'i dynnu allan o'r adroddiad arolygu llawn.

23 'Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg mewn awdurdodau eraill ledled Cymru;
- er y bu gwelliannau mewn presenoldeb, mae gormod o ysgolion cynradd yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer cefnogi a herio ysgolion yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau;
- nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu trwy ymgorffori'r newidiadau y mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi'u gwneud i arferion i roi sicrwydd digonol bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno; a
- bod yr awdurdod yn ymateb yn rhy araf i'r lefel gynyddol o leoedd dros ben yn y sector uwchradd.

24 Fodd bynnag:

- digwyddodd gwelliant mewn perfformiad mewn ysgolion uwchradd yn gyflymach na Chymru yn 2012 ac mae'n cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion mewn awdurdodau eraill ledled Cymru ar y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg;
- mae gan yr awdurdod ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n golygu bod pobl ifanc yn gallu manteisio'n dda ar eu hawliau ac yn eu galluogi i gyflawni'n dda mewn ystod eang o gymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol; a
- llwyddodd yr awdurdod i adeiladu gallu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau prif ffrwd.

25 Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod arweinwyr corfforaethol ac uwch aelodau etholedig wedi bod yn rhy araf i gydnabod problemau allweddol o ran diogelu a newid y diwylliant mewn gwasanaethau addysg, a'u gwella;
- bod arweinyddiaeth ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaeth yn wan;
- bod aelodau etholedig wedi'i chael yn anodd archwilio penderfyniadau'n ddigonol a dwyn gwasanaethau i gyfrif;

- nid yw cynlluniau gweithredol a phartneriaeth yn nodi mesurau deilliannau a cherrig milltir perthnasol yn gyson i alluogi swyddogion i olrhain cynnydd, atebolrwydd a pherfformiad yn effeithiol;

- nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn y gyfarwyddiaeth addysg yn ddigon trylwyr i gynnal ac ysgogi gwelliant;

- nid yw'r trefniadau hunanarfarnu yn drylwyr ac nid ydynt yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn gywir;

- bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol; ac

- nid yw'r awdurdod yn paratoi partneriaethau strategol allweddol yn ddigon da i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflawni nodau corfforaethol penodol.

26 Fodd bynnag:

- mae arweinwyr corfforaethol wedi dechrau deall ac ymgysylltu'n llawnach â'r heriau sy'n wynebu addysg yn Sir Benfro yn ddiweddar, ac maent wedi cymryd camau priodol i ysgogi gwelliant;

- mae aelodau etholedig allweddol, ynghyd ag uwch swyddogion corfforaethol, yn dylanwadu ar newid diwylliannol cyson, sy'n cyfrannu at ddull mwy agored, realistig a chynhyrchiol o weithio gydag eraill fel y Bwrdd Gweinidogol ac arolygiaethau;

- mae'r awdurdod wedi cymryd camau diweddar i resymoli a chryfhau ei drefniadau partneriaeth; ac

- mae'r awdurdod yn rheoli ei gyllidebau yn ddarbodus ac wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd gan gyfyngu ar effaith effeithlonrwydd ar wasanaethau i ysgolion.'

## Mae dull y Cyngor o ymdrin â'r amgylchedd yn gwneud cynnydd da

27 Mae'r Cyngor yn esbonio yn ei *Gynllun Adolygu Gwelliant 2011/2012* (y Cynllun Adolygu Gwelliant) mai'r newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sylweddol yr ydym oll yn ei hwynebu. Yn ystod 2011-12, bu i'r Cyngor leihau ei alw am ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil. Yn ogystal â pharhau â'i strategaeth i fuddsoddi mewn technolegau a brofwyd, megis cynlluniau gwres a phŵer cyfunedig, sy'n talu'r buddsoddiad gwreiddiol gofynnol yn ôl yn eithaf cyflym, mae'r Cyngor wedi cymryd camau ychwanegol i ddefnyddio llai o ynni trwy ostwng lefelau goleuadau stryd a llwyddo i aildrefnu contractau gyda chyflenwyr ynni. At ei gilydd, llwyddodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran lleihau ei allyriadau carbon 4.26 y cant. Yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd y Cyngor yn canolbwyntio mwy ar y gwaith hwn o ganlyniad i'r Bil Datblygu Cynaliadwy a chynnydd mewn treth ar garbon.

28 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i leihau'r effaith y gallai'r newid yn yr hinsawdd ei chael, trwy ddefnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy i leihau effaith glaw trwm.

## Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau gwastraff

29 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau gwastraff. Yn ystod 2011-12, bu'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y gofyniad i leihau'r gwastraff a gâi ei anfon i safleoedd tirlenwi, trwy gynyddu cyfraddau ailgylchu. Roedd hynny'n gofyn am newid sylweddol i weithdrefnau ac yn golygu cysylltiad agos rhwng y gwasanaeth a'r aelodau, busnesau, y cyhoedd a'i staff ei hun. Llwyddwyd i wneud newidiadau, ac mae'r trefniadau newydd yn dechrau esgor ar fanteision o safbwynt cyfraddau ailgylchu uwch ac arbedion o ran costau, er enghraifft trwy leihau'r milltiroedd y mae lorïau sbwriel yn eu teithio. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cyrraedd y targed ar gyfer 2012-13, sef ailgylchu 52 y cant o'r gwastraff trefol a gaiff ei gasglu, ac mae'r gwasanaeth yn ymwybodol iawn o'r targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau gwastraff a goblygiadau methu â chyrraedd y targedau hynny.

30 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion yn hollbwysig os yw am barhau i wella cyfraddau ailgylchu. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd parhau i ymgysylltu â dinasyddion yn arbennig o anodd os bydd disgwyl iddo ddilyn dehongliad Llywodraeth Cymru o ddulliau casglu sbwriel o ymyl y palmant. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn asesu'r risgiau a allai ddeillio o'r mater hwn.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd

31 Er gwaethaf y rhybudd bod yr economi'n dal mewn dirwasgiad, mae'r manylion yn y Cynllun Adolygu Gwelliant yn gadarnhaol iawn. Llwyddwyd i sicrhau rhai cyflawniadau o bwys, gan gynnwys dynodi Aberdaugleddau yn Ardal Fenter.

32 Caiff y prif risgiau eu nodi, megis y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru dynnu cyllid ar gyfer y Ganolfan Fusnes Leol yn ôl. Byddai hynny'n dileu ffynhonnell o gyngor annibynnol i fusnesau bach yn yr ardal, er y gallai gwasanaeth tebyg gael ei ddarparu gan sefydliad gwahanol.

## Mae'r Cyngor yn datblygu ac yn cefnogi cymunedau, ac mae'n hybu diogelwch trwy raglen weithredol o brosiectau a mentrau

33 Mae gan y Cyngor 11 o weithgareddau y bwriedir iddynt ddatblygu a chefnogi cymunedau. Mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys ystod o brosiectau megis cynlluniau cymydog da a gwasanaethau cyfeillio er mwyn lleihau unigrwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu capasiti yn y sector gwirfoddol ac yn y cymunedau eu hunain. Er enghraifft, bydd ysgolion yn aml mewn sefyllfa dda i'w hystyried yn ganolfannau cymunedol; bydd annog y gymuned ehangach i ddefnyddio adeiladau ysgolion y tu allan i oriau ysgol yn golygu bod defnydd gwell yn cael ei wneud o'r adeiladau a bod canolfan yn cael ei darparu ar gyfer gweithgarwch cymunedol.

34 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei holl lyfrgelloedd, ac erbyn hyn mae'n datblygu cynlluniau ar gyfer canghennau. Bydd gweithredu'r cynlluniau hyn dros y flwyddyn nesaf yn sicrhau unwaith yn rhagor bod llyfrgelloedd yn rhan integredig o'r gymuned y maent wedi'u lleoli ynddi, a bydd hefyd yn eu helpu i fodloni rhagor o'r safonau cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd.

35 Er bod cyfraddau troseddu Sir Benfro yn parhau'n isel, mae'r Cyngor wedi helpu i gefnogi troseddwyr er mwyn eu hailintegreiddio yn eu cymunedau. Mae'r fframwaith integredig ar gyfer rheoli troseddwyr wedi'i hen sefydlu yn y sir, ac mae'n enghraifft dda o waith amlasiantaethol effeithiol.

36 Mae'r Cyngor yn gweithio i godi proffil troseddau amgylcheddol er mwyn ceisio osgoi'r effaith y mae'r problemau hynny'n ei chael ar y gymuned. Gall baw cŵn, sbwriel, achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon a graffiti fod yn broblem, ond mae cynnwys cymunedau'n ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau hynny. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei grant *Trefi Taclus* ar gyfer ardaloedd ar draws Sir Benfro, ac mae arian ychwanegol wedi bod ar gael ar gyfer Hwlffordd. Er enghraifft, tynnodd Fforwm Ieuenctid Aberdaugleddau sylw at y ffaith bod sbwriel yn broblem, a chynhaliodd ymarfer clirio sbwriel a lwyddodd yn uniongyrchol i leihau effaith sbwriel ar y gymuned.

## Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella mynediad i'r sir ac o fewn y sir

37 Er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau cymorthdaliadau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gwella gorsaf fysiau Hwlffordd a gwella'r wybodaeth amser real sydd ar gael am deithio ar fysiau mewn nifer o fannau'n golygu ei bod yn haws defnyddio'r gwasanaethau. Yn ogystal, trwy ailagor gorsaf reilffordd Wdig, dangosodd y Cyngor ei ymrwymiad i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch. Gan weithio mewn partneriaeth â Network Rail, agorwyd yr orsaf ym mis Mai 2012 gan alluogi teithwyr i fynd ar y trên yn Wdig am y tro cyntaf ers 1964. Mae prosiectau eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar y ffyrdd a gwelliannau i ddiogelwch ar y gweill er mwyn helpu i'w gwneud yn bosibl i bobl gael mynediad i'r sir, annog mewnfuddsoddi a lleihau nifer y damweiniau sy'n digwydd a'u difrifoldeb.

38 Mae'r Cyngor wedi parhau i hybu cerdded, beicio a marchogaeth â gwefannau gwell. Cafodd y gwefannau hynny oddeutu 56,000 o ymweliadau yn ystod 2011-12.

39 Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cysylltiadau gwell o ran technoleg ar gyfer Dinbych-y-pysgod, Hwlffordd a Neyland, gan alluogi mwy o bobl a busnesau i gael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau trwy gyfrwng y rhyngrwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi trefnu contract i wella ei gyfleuster rhwydwaith gan leihau ei gostau ar yr un pryd. Bydd hynny'n galluogi nifer o ysgolion a swyddfeydd y sir i fanteisio ar fynediad cyflymach i'r rhyngrwyd.

## Gallai diwygiadau diweddar i drefniadau llywodraethu a rheoli gefnogi gwelliant, ond nid yw'r Cyngor yn hunanwerthuso'n glir ac yn gyson ei berfformiad o ran cyflawni ei amcanion gwella a'r effaith y mae ei gamau gweithredu ar gyfer gwella'n ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth

40 Mae'r Cyngor wedi cyflawni'n effeithiol ei ddyletswyddau o safbwynt adrodd ynghylch gwelliant dan y Mesur; fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd yn well â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Adolygu Gwelliant erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2012. Wrth archwilio'r Cynllun Adolygu Gwelliant, gwelsom ei fod yn gynhwysfawr a'i fod yn deg ac yn gytbwys ar y cyfan.

41 Ceir tystiolaeth gadarn yn y rhan fwyaf o wasanaethau ac adrannau i ddangos bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i reoli'n weithredol ar lefel penaethiaid gwasanaeth a chyfarwyddwyr. Mae'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau gwella gwasanaeth a chynllun gwella trosfwaol y Cyngor yn gymhleth oherwydd ehangder y cynllun. Mae llawer o feysydd gwasanaeth yn cyfrannu at bob amcan gwella, sy'n golygu ei bod yn anodd gwerthuso canlyniadau. Gwelsom nad yw'r Cyngor yn llwyddo'n gyson i werthuso'r effaith y mae ei weithgarwch yn ei chael ar fywydau dinasyddion, a'r graddau y caiff cynnydd ei wneud tuag at gyflawni'r nodau a fwriedir ar gyfer canlyniadau.

42 Bellach, caiff adroddiadau ynghylch perfformiad eu cyflwyno i'r pwyllgorau craffu bob chwarter. Cyflwynir ystadegau ynghylch perfformiad ynghyd â chrynodeb i'r aelodau gan y pennaeth gwasanaeth neu'r cyfarwyddwr. Darperir ystadegau sy'n dangos perfformiad cyfredol a thargedau yn ogystal â gwybodaeth am gyfartaledd Cymru ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r wybodaeth hon a naratif y crynodeb yn helpu'r aelodau i nodi unrhyw dueddiadau a allai amlygu problemau posibl o ran perfformiad.

43 Erbyn hyn, caiff yr aelodau gyfle i holi uwch-swyddogion yn fwy helaeth a herio a thrafod perfformiad yn adeiladol. Caiff cyfarfodydd eu rheoli'n effeithiol, ac mae'r ystod o gwestiynau ac ansawdd yr herio mewn cyfarfodydd yn ddiweddar wedi gwella. Gellid gwneud rhagor bob amser i wella'r wybodaeth sydd gan aelodau er mwyn eu galluogi i herio'n fwy grymus fyth.

44 Mae AGGCC yn nodi bod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi ymadael yn cynnwys disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor, a'i fod yn adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC.

45 Ar ôl ailarolygu'r Cyngor ym mis Hydref 2012, nododd Estyn fel a ganlyn: 'nid yw'r trefniadau hunanarfarnu yn drylwyr ac nid ydynt yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn gywir. Mae proses gorfforaethol glir a graddfeydd amser cytûn ar gyfer cydlynu hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y cyngor. Mae'r broses hon yn canolbwyntio mwy ar gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad ar hyn o bryd, yn hytrach nag arfarnu effeithiolrwydd y camau gweithredu. Ni chaiff y broses ei rhoi ar waith yn ddigon cyson i fod yn gwbl effeithiol wrth ddarparu golwg strategol ar draws gwasanaethau'r cyngor. Ni chaiff cynlluniau gwella gwasanaethau eu harfarnu'n ddigon trylwyr i fynd ati'n gywir i nodi meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Darparwyd adroddiad hunanarfarnu gan yr awdurdod cyn yr arolygiad. Er bod yr adroddiad yn arfarnol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol mewn rhai meysydd, mae'n ddisgrifiadol yn bennaf, ac nid yw'n nodi meysydd i'w gwella yn ddigon cywir ar y cyfan. Ni chaiff

honiadau eu cefnogi'n ddigon da gyda thystiolaeth ddibynadwy bob amser. Ni wnaeth y gyfarwyddiaeth addysg gynnwys rhanddeiliaid, asiantaethau eraill na phobl ifanc wrth lunio barnau am ansawdd a safonau.'

46 O safbwynt trefniadau diogelu mae Estyn hefyd yn nodi fel a ganlyn: 'er gwaethaf y gwelliannau mewn diogelu a nodwyd gan yr awdurdod yn ei hunanarfarniad a chan yr arolygiaethau, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi barn rhy gadarnhaol i'w hun, sef ei fod wedi gwella'n sylweddol. Mae adroddiadau i'r grwpiau rheoli trosfwaol, i uwch swyddogion ac aelodau etholedig, ac i'r cabinet a chraffu, yn canolbwyntio gormod ar adrodd ar y tasgau a gyflawnir, heb ddadansoddi effaith newidiadau i arfer ar lefel gwasanaeth, neu nodi gwelliannau yng ngwybodaeth, agweddau neu gymhwysedd athrawon a swyddogion wrth ddelio â rheoli diogelu yn ddigon da. Bu hyn yn wendid, sydd wedi rhwystro cynnydd yn y maes hwn. Fodd bynnag, yn yr wythnosau ychydig cyn yr arolygiad hwn, mae'r awdurdod lleol wedi dechrau nodi'n fwy clir iddo ef ei hun y meysydd i'w gwella y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiadau arolygu amrywiol.'

47 Ar 28 Medi 2012 cyflwynodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod am gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2011-12. Yn ogystal, cyflwynodd yr archwilydd penodedig ei Lythyr Archwilio Blynyddol ar 29 Tachwedd 2012. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

48 Mae'n ofynnol i'r archwilydd penodedig adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau. Ni chafodd ei gasgliad, sy'n seiliedig ar y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella (yr adroddir yn ei gylch yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol*) ei nodi yn y *Llythyr Archwilio Blynyddol* a gyflwynwyd ym mis Tachwedd. Ar y pryd, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cwblhau adroddiad dilynol i'r adroddiad arolygiad arbennig a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2012.

49 Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac er bod trefniadau llywodraethu a rheoli cyffredinol wedi eu gwella a bod rheolaeth ariannol yn parhau'n effeithiol, mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r Cyngor wneud llawer mwy os yw am ddangos effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer defnyddio adnoddau.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi gwelliant yn gadarn mewn sawl maes; fodd bynnag, gan iddo fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrylwyr i'r materion sy'n ymwneud â diogelu a godwyd gan waith adolygu allanol, methodd yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

### Mae'r Cyngor erbyn hyn, yn bennaf oherwydd gwaith adolygu allanol, yn fwy ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â diogelu ac mae wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, gan iddo fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrylwyr, methodd yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

50 Ar ôl i adroddiadau beirniadol gael eu cyhoeddi gan arolygwyr yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2011, bu i ni gynnal arolygiad arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol yn y Cyngor, gan gyflwyno adroddiad ym mis Ionawr 2012. Er i'r Cyngor arddangos rhai nodweddion cadarnhaol mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i amgylchedd gweithredu, daethom i'r casgliad fod angen iddo:

- wella goruchwyliaeth wleidyddol a goruchwyliaeth gan reolwyr, a dwyn pobl i gyfrif yn briodol;
- egluro cyfrifoldebau'r aelodau ac uwch-swyddogion o safbwynt gwneud penderfyniadau a llywodraethu;
- annog pobl i herio'n effeithiol, a rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol.

51 Roeddem wedi bwriadu ailarolygu'r Cyngor ym mis Hydref 2012 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed o ran bodloni'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2012. Gan fod Gweinidogion Cymru yn pryderu am y modd yr oedd newidiadau'n cael eu gweithredu yn y Cyngor, cafwyd cais i gynnal yr ail arolygiad yn gynharach. Yn benodol, roedd yr ail arolygiad yn ceisio darganfod a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran mynd i'r afael â'r angen i wella'r modd y caiff trefniadau diogelu eu rheoli a'u llywodraethu. Mae'r adroddiad ynghylch yr ail arolygiad a gynhaliwyd gennym ar gael ar ein gwefan ar www.wao.gov.uk a chaiff ei grynhoi isod.

52 Daethom i'r casgliad fod y Cyngor erbyn hyn, yn bennaf oherwydd gwaith adolygu allanol, yn fwy ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â diogelu a'i fod wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol ond, gan iddo fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrylwyr, ei fod wedi methu yn ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- o ganlyniad i adroddiadau allanol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau sydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu, ond nid yw wedi mynd i'r afael ag achosion sylfaenol diffygion;
- mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhy araf i fynd i'r afael â phroblemau difrifol, megis y defnydd a wneir o ystafelloedd ymdawelu, ac nid yw'n gweithredu polisïau a gweithdrefnau newydd yn effeithiol;
- ychydig iawn o gynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers mis Ionawr 2012 i gryfhau rôl yr aelodau o safbwynt herio a sicrhau.

53 Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent gynorthwyo'r Cyngor drwy arfer eu pwerau dan adran 28 y Mesur, gan roi pwyslais arbennig ar gefnogi trefniadau llywodraethu, craffu a sicrhau. Mae penodiad y Bwrdd Gweinidogol presennol wedi'i ymestyn hyd 31 Mawrth 2013, a disgwylir penderfyniad ynghylch ffurf y gefnogaeth y mae'r Gweinidogion yn bwriadu ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

54 Ers cwblhau'r arolygiad hwn, mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o newidiadau sylweddol ar lefel uwch-reolwyr ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol; gallai'r newidiadau hyn gefnogi gwelliant. Mae arsylwadau diweddar mewn perthynas â gwaith craffu'n dangos mwy o awydd i herio, ac yn dangos bod aelodau'n gofyn cwestiynau da a deallus a bod swyddogion yn rhoi ymatebion clir ac agored. Mae'r aelodau yn dechrau gwella'r modd y maent yn dwyn swyddogion i gyfrif. Os caiff y newidiadau hyn eu cynnal, gallent gefnogi gwelliant hefyd. Fodd bynnag, rydym yn dal mewn cyfnod o bontio ar hyn o bryd, a byddwn yn parhau i fonitro'r trefniadau hyn a byddwn yn adrodd ynghylch cynnydd unwaith eto maes o law.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan y Mesur, ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

55 Mae'r Cyngor wedi llunio cynllun syml a chryno sy'n amlinellu'r hyn y mae am ei gyflawni a'r modd y bydd yn gwneud hynny. Mae'r cynllun wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n hawdd ei ddeall. Mae wedi'i ddrafftio mewn modd sy'n sicrhau ei fod mor hygyrch ag sy'n bosibl i'r cyhoedd. Defnyddir cyn lleied ag sy'n bosibl o iaith dechnegol ac mae'n osgoi cynnwys manylion diangen. Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am yr ystod o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac am eu hyd a'u lled, ac mae hynny'n hybu ymwybyddiaeth o ehangder y gweithgareddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.

56 Ar gyfer 2012-13, mae'r Cyngor wedi nodi wyth o amcanion gwella. Esbonnir yn glir ar ba sail y dewiswyd yr amcanion hyn, gan gynnwys i ba raddau y cawsant eu llywio gan waith ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Wrth ddewis meysydd ar gyfer gwella, ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o randdeiliaid hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y pethau cywir. Mae'r Cyngor wedi nodi mai ymateb cyfyngedig a gafwyd i'r gwaith ymgysylltu hwn; dewisodd beidio â chwilio am ffyrdd eraill o ymgysylltu ymhellach â dinasyddion a rhanddeiliaid. Roedd gwaith ymgynghori'r Cyngor mewn perthynas â'r agenda gydraddoldebau hefyd yn gyfyngedig.

57 Mae saith o'r amcanion yn cyd-fynd yn uniongyrchol â themâu'r cynllun cymunedol, ac maent yn cefnogi agenda barhaus y Cyngor, sef sicrhau gwelliant parhaus ar draws pob gwasanaeth. Cyflwynwyd yr wythfed amcan gwella er mwyn adlewyrchu camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i'r materion a godwyd yn yr arolygiad ar y cyd gan Estyn/AGGCC a'n harolygiad arbennig ni. Caiff pob amcan ei gyflwyno mewn modd cyson sy'n pennu'r hyn y mae'r Cyngor am ei wella, yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i gefnogi hynny. Gellid darparu esboniad pellach ynghylch y modd y bydd asiantaethau partner yn ymwneud â'r gwaith o gefnogi'r broses gyflawni ac ynghylch y trefniadau ar gyfer monitro cynnydd mewn perthynas â'r cynllun. Ni chaiff yr holl gamau gweithredu eu hategu gan fesurau llwyddiant. Mae lle o hyd i ddisgrifio mesurau'n well a'u datblygu a'u teilwra ymhellach fel eu bod yn perthyn yn fwy cywir a chlir i'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni.

58 Mae'n eithaf hawdd dod o hyd i'r cynllun ar wefan y Cyngor, a darperir copïau caled y gellir cyfeirio atynt mewn mannau allweddol megis llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau gwybodaeth i gwsmeriaid. Gan fod y cynllun mor glir, nid oes angen llunio dogfen grynhoi ar wahân. Mae sylw gan y wasg leol wedi helpu i hyrwyddo'r cynllun i'r gymuned leol.

59 At ei gilydd, mae dulliau'r Cyngor o gasglu dangosyddion perfformiad ac adrodd yn eu cylch yn ddibynadwy, er i ni nodi rhai problemau'n ymwneud â nifer fach o ddangosyddion lle mae angen gwella'r trefniadau.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

60 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae gwaith i'w wneud o hyd mewn sawl maes, er enghraifft, o safbwynt gwerthuso canlyniadau'n well a gwneud gwelliannau pellach i'r broses o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd. Gallai mentrau a chynlluniau cyfredol gyflawni'r gwelliannau hyn, a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd dros y flwyddyn nesaf.

61 Dangosodd ein hadolygiad dilynol o ddulliau rheoli gwybodaeth ym mis Tachwedd 2012 fod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â phob un o'n cynigion ar gyfer gwella, ac mae hynny wedi dechrau cryfhau'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae rolau a chyfrifoldebau staff allweddol wedi'u hegluro, mae perchnogion asedau gwybodaeth wedi'u hadnabod a byddant yn cael eu hyfforddi;
- mae gwaith rheoli risg mewn perthynas â gwybodaeth yn gwella;
- mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu set o ddogfennau polisi a chanllawiau a gaiff eu rhannu â'r staff, a chaiff y gwaith hwnnw ei ategu gan yr adolygiad Archwilio Mewnol;
- mae cyrsiau hyfforddi ar gyfer perchnogion asedau gwybodaeth yn cael eu datblygu.

62 Mae adolygiad dilynol tebyg a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2012, a fu'n edrych ar y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn defnyddio technoleg, hefyd wedi tynnu sylw at gynnydd. Mae cynnydd cyffredinol wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r cynigion ar gyfer gwella; mae cynlluniau, sylfeini technoleg a threfniadau llywodraethu'r Cyngor yn cael eu cryfhau, sy'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar ei asedau o ran technoleg. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn adolygu ei *Strategaeth TGCh a'i Strategaeth Mynediad Cwsmeriaid;*
- mae gwaith ad-drefnu er mwyn cael un llwyfan technoleg yn helpu i leihau'r galw am gymorth pen desg, ac felly'n rhyddhau adnoddau ar gyfer prosiectau eraill;
- mae gan y Pwyllgor Archwilio sydd newydd gael ei sefydlu gylch gorchwyl sy'n cynnwys herio prosiectau TGCh a chraffu arnynt, ac mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi cynnwys mwy o adolygiadau o dechnoleg yn ei flaenraglen waith.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol clir, er bod angen o hyd cryfhau'r cysylltiadau ag amcanion strategol ac amcanion gwella

63 Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2012-13) pennodd y Cyngor ofyniad o £198.3 miliwn o ran y gyllideb. Mae adroddiad monitro'r gyllideb ar 31 Rhagfyr 2012, dri chwarter ffordd drwy'r flwyddyn, yn dangos gwariant net o £147.4 miliwn yn erbyn y gofyniad o ran y gyllideb (ychydig dros 74 y cant). O safbwynt y dadansoddiad lefel uchel hwn, mae gwariant yn unol â'r hyn a ddisgwylir. Mae'r pwysau mwyaf sylweddol o ran cost y cyfeirir ato yn adroddiad mis Rhagfyr 2012 yn ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion, lle cynyddodd y gyllideb wreiddiol o £38.1 miliwn i £40.9 miliwn.

64 Cadarnhaodd *Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig* fod trefniadau effeithiol wedi bod ar waith yn ystod 2011-12 ar gyfer pennu'r gyllideb, monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol. Mae hefyd yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod yr angen am waith adolygu a herio cryfach gan yr aelodau, a'i fod yn rhoi trefniadau diwygiedig ar waith yn ystod 2012-13. Mae proses y Cyngor ar gyfer pennu cyllideb 2013-14 (a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror) hefyd yn ystyried crynodeb o gynllun ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2013-14 a 2015-16. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau £3.5 miliwn yn llai o gostau ar gyfer 2014-15 a 2015-16 er mwyn cyflwyno cyllideb gytbwys sydd o fewn y rhagdybiaethau presennol ar gyfer setliadau'r dyfodol o ran grant a chyllid.

65 Er bod y Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol, mae angen o hyd sicrhau bod cysylltiad mwy clir rhyngddynt ac amcanion strategol y Cyngor a'i amcanion gwella. Yn ogystal, mae angen i adroddiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ac ystyriaethau tymor hwy, gan gynnwys y defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn, gael eu cynnwys yn y trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol a chraffu. Bydd hynny'n dod yn fwyfwy pwysig o gofio'r angen i ariannu hanner y rhaglen gyfalaf *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*, a fydd yn costio £170 miliwn, rhwng 2012-13 a 2021-22 – sy'n brosiect hirdymor iawn.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant

66 Dylai prosesau'r Cyngor sicrhau bod taliadau amserol a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl gywir a sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol. Mae amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd am fudd-dal tai a newidiadau mewn amgylchiadau'n fyrrach na chyfartaledd Cymru, ac mae canran yr hawliadau newydd y penderfynir yn eu cylch cyn pen 14 diwrnod hefyd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

67 Mae'r gwasanaeth yn dangos lefel uchel o gywirdeb wrth brosesu hawliadau. Er bod canran y gordaliadau a nodwyd ac a adenillwyd mewn perthynas â dyled yn ystod y flwyddyn wedi gostwng, mae lefel gyffredinol gwaith adennill dyled oherwydd gordaliadau wedi aros yr un fath, ac mae'r Cyngor wedi adolygu ei weithdrefnau ar gyfer adennill dyled. Mae'r gwasanaeth yn cael llai o geisiadau i ailystyried neu adolygu hawliadau na chyfartaledd Cymru, ac mae'r ceisiadau a ddaw i law'n cael eu trin yn eithaf cyflym. Mae cyfanswm nifer yr apeliadau wedi cynyddu ychydig, ond ymdrinnir â'r rhain hefyd yn gynt na chyfartaledd Cymru.

## Mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau bod y *Cynllun Iaith Gymraeg* yn cael ei weithredu

68 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

69 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

70 Mae'r Cyngor wedi paratoi *Strategaeth Sgiliau Ieithyddol* a bydd ei weithredu ynghyd â'r rhaglen hyfforddiant yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y cyfnod nesaf. Bydd gwaith datblygol sydd angen ei wneud

i weithdrefnau corfforaethol y Cyngor, megis y system casglu a storio data, yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen gyda sawl un o'i amcanion. Daw hyn yn sgil y ffaith bod y system bersonél wedi arwain at oedi sawl gweithred yng *Nghynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei phrif ffrydio ymhellach drwy ffurfioli ar brosesau cynnwys cyfeiriadau priodol at y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu gwasanaethau. Mae trefniadau corfforaethol mewn lle i sicrhau gweithrediad y *Cynllun Iaith Gymraeg,* gan gynnwys Grŵp Gweithredu'r Cynllun. Atgyfnerthir hynny gan brosesau i gynorthwyo gyda sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y *Cynllun Iaith Gymraeg*; er enghraifft system rheoli cynnwys sydd yn atal llwytho gwybodaeth mewn un iaith i wefan Cyngor.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £264 miliwn y flwyddyn (2012-13), ac eithrio grantiau. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,150 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £40 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Benfro oedd £922.83 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.36 y cant i £944.60 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 66.1 y cant o dai Sir Benfro yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 32 Independent Plus
- 5 Plaid Cymru
- 8 Llafur
- 2 Geidwadwr
- 1 Democrat Rhyddfrydol
- 12 Heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr Bryn Parry-Jones. Caiff ei gefnogi gan y canlynol:

- Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden: Mark Lewis
- Cyfarwyddwr Datblygu: Steven Jones
- Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a'r Amgylchedd: Ian Westley
- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol: Jake Morgan

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Benfro yw:

- Paul Davies, Preseli Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Benfro yw:

- Stephen Crabb, Preseli Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.pembrokeshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yng Nghyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP. Ffôn: 01437 764551 neu e-bost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad canlynol gan archwilydd ar 29 Tachwedd 2012.

Mr B Parry-Jones
Y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Annwyl Bryn

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau ynghylch adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd Cyngor Sir Penfro â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, ond ceir rhai meysydd o hyd lle gellid cryfhau'r gwaith hwn ymhellach. Mae gwaith ychwanegol yn parhau yn dilyn Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol, a chyflwynir adroddiad ynghylch y gwaith hwnnw maes o law.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn mynnu fy mod yn:

- darparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau;

- cyflwyno tystysgrif sy’n cadarnhau fy mod wedi cwblhau’r gwaith o archwilio’r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu’n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae’r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 28 Medi 2012 cyflwynais farn archwilio ddiamod am y datganiadau ariannol gan gadarnhau eu bod yn ddarlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Trafodwyd y materion allweddol a oedd yn codi o’r archwiliad o’r datganiadau ariannol â’r Pwyllgor Archwilio ar 10 Medi 2012, ac adroddwyd yn eu cylch yn ffurfiol wrth y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 28 Medi 2012 cyn i’r datganiadau gael eu cymeradwyo.

Mae fy adolygiad o’r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cadarnhau bod trefniadau effeithiol wedi bod ar waith yn ystod 2011-12 ar gyfer pennu’r gyllideb, monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol. Mae’r Cyngor wedi cydnabod yr angen am waith adolygu a herio cryfach gan yr aelodau, ac mae’n rhoi trefniadau diwygiedig ar waith yn ystod 2012-13. Yn rhan o’r gwaith hwnnw, bydd angen i’r Cyngor ystyried sut y caiff gwaith cynllunio ariannol tymor hwy a’r defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn eu cynnwys yn y trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol a chraffu.

Mae gan Bwyllgor Archwilio newydd y Cyngor rôl allweddol i’w chwarae o safbwynt adolygu trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a threfniadau eraill, megis y rhai ar gyfer asesu risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Mae’r Cyngor wedi paratoi rhaglen waith fanwl, a ategir gan ‘weithdai’, i ddatblygu’r modd y mae’r Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Byddaf yn gweithio gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid a’r Pwyllgor yn ystod 2012-13 i gynorthwyo i sicrhau y caiff rolau’r Pwyllgor eu deall a bod modd eu cyflawni’n effeithiol, ac i sicrhau yr eir i’r afael â’r materion sy’n codi o archwiliad eleni.

Mae’r modd yr wyf wedi ystyried trefniadau’r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi’i seilio ar waith archwilio’r datganiadau ariannol, gan ddibynnu hefyd ar y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o’r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn ogystal, mae’r Archwilydd Cyffredinol wrthi’n cwblhau adroddiad dilynol i’r adroddiad Arolygiad Arbennig a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2012.

O gofio nad yw’r gwaith hwn wedi’i gwblhau eto, byddaf yn darparu fy nghasgliad ynghylch trefniadau’r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddechrau 2013. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei adroddiadau, yn tynnu sylw hefyd at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hynny wedi ei brofi eto neu lle gellid gwneud gwelliannau.

Cyflwynais dystysgrif ar 28 Medi 2012 i gadarnhau bod y gwaith o archwilio’r cyfrifon wedi ei gwblhau.

Ar hyn o bryd disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 gyd-fynd â'r ffi y cytunwyd arni, a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yr eiddoch yn gywir

**Richard Harries**
**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**

29 Tachwedd 2012
cc. Y Cynghorydd J Adams, Arweinydd
cc. Mark Lewis, Cyfarwyddwr Cyllid

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei gynllun gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion gwella ar gyfer 2011-12 | Amcanion gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|---|
| Byddwn yn gweithredu i gefnogi byw'n annibynnol a byw'n iach. | Byddwn yn gweithredu i gefnogi byw'n annibynnol a byw'n iach. |
| Byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn gweithredu'n fwy cynaliadwy. | Byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn gweithredu'n fwy cynaliadwy. |
| Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella economi Sir Benfro. | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella economi Sir Benfro. |
| Byddwn yn cefnogi datblygiad cymunedau llewyrchus a chynaliadwy. | |
| Byddwn yn cefnogi datblygiad tai priodol yn Sir Benfro. | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i leihau'r angen am dai yn Sir Benfro. |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau addysg o ansawdd uchel a ddarparwn. | Byddwn yn datblygu gwasanaeth addysg o ansawdd uchel. |
| Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella cysylltiadau cyfathrebu â Sir Benfro ac oddi fewn y Sir. | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella cysylltiadau cyfathrebu â Sir Benfro ac oddi fewn y Sir. |
| Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod Sir Benfro'n parhau'n lle diogel. | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod Sir Benfro'n parhau'n lle diogel. |
| | Byddwn yn annog rhagor o ymgysylltiad a her gan Aelodau er mwyn gyrru gwelliannau i wasanaethau. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn ei *Gynllun Adolygu Gwelliant 2011/2012* y mae modd ei weld hefyd ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk